Rhagfyr 2024

Dilynnwch ni ar Facebook:
Ysgol Gymraeg Trefynwy

# Y Bont

**Newyddion Ysgol**

Hoffwn ddiolch yn fawr i bob rhiant/ gofalwyr, y staff a'r holl blant am dymor hyfryd fel Ysgol Gymraeg Trefynwy. Mae wedi bod yn braf gweld ein teulu bach yn datblygu.

Fel staff Ysgol, rydym wedi ffocysu ar ddatblygu ethos gofalgar a threfniant dosbarth effeithiol. Rydym yn dilyn egwyddorion Cwricwlwm y Blynyddoedd Cynnar a Chwricwlwm i Gymru sydd yn caniatâi i'r disgyblion arwain eu dysgu personol ar lefel addas i'r unigolyn.

Byddwn yn parhau i gynnal ein bws cerdded trwy'r gaeaf. Ydych chi'n gallu sicrhau bod y plant wedi gwisgo'n addas ar gyfer y tywydd, gan gynnwys esgidiau addas. Bydd croeso iddynt newid yn yr ysgol os oes angen. A wnewch chi ystyried defnyddio'r bws, os nad ydych yn barod yn gwneud, mae hwn yn lleihau'r traffig o amgylch yr Ysgol ac yn rhoi cyfle i'r plant cymdeithasu ar y ffordd i'r ysgol.

A allem hefyd atgoffa teuluoedd mai dim ond ffrwythau neu lysiau y dylid eu hanfon i'r ysgol fel byrbryd - diolch.

Aeth y plant i jambori Do-re-mi ym Mhontypwl i ddechrau ein dathliadau Nadolig, gyda phawb yn dangos ymddygiad gwych ac yn mwynhau'r profiad yn fawr.



Cynhaliwyd cyngerdd Nadolig hyfryd yn Eglwys St Thomas, gyda'r pant yn perfformio a chanu yn arbennig. Diolch i St Thomas am y croeso cynnes, ac i'r staff am eu Gwaith caled.

**Gwaith Cymdeithas Rhieni a Ffrindiau Trefynwy (CRhaFfT)**

Diolch yn fawr iawn i'r CRhaFT am drefnu Brecwast Sïon Corn arbennig. Aeth y plant draw I Ganolfan Cymunedol Rockfield i fwynhau llu o weithgareddau Nadoligaidd gan gynnwys brecwast gyda'r Dyn pwysig!



Mae'r plant wedi mwynhau siocled poeth a thost pob dydd Gwener am yr hanner tymor.

Diolch i'r gymdeithas am eu rhoddion hael tuag adnoddau i'r plant.

**Nadolig Llawen i chi gyd a Blwyddyn Newydd Dda!**

## Dyddiadau Pwysig

**HMS**
6/1/2025
2/6/2025
21/7/2024

Mae presenoldeb pob plentyn yn bwysig i ni er mwyn sicrhau'r cyfleoedd orau i bob disgybl. Gwerthfawrogwn eich cydweithrediad i gysylltu gwyliau teuluol gyda gwyliau ysgol (hyd yn oed os ydych yn colli cwpl o ddiwrnodau, mae'n well nag wythnos gyfan neu mwy) –Diolch

7/1/2025 – Dechrau Tymor I'r plant
9/1/2025 – Plant codi tair yn dechrau
31/1/2025 – Bore agored I rieni a phlant Meithrin a Derbyn 2025 9:30 -11:00
24/2-28/2/2025 – Hanner Tymor
11/4/2025 – Diwedd Tymor